***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 525 (Cy.73) (C.28)

# YR HEDDLU, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2003

*Wedi'i wneud - - 5 Mawrth 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 108(4) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enw a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2003.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Deddf 2002" yw Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.

### Cychwyn

**2.** Daw adrannau 97 a 98 o Ddeddf 2002 (partneriaethau gostwng nifer yr achosion o drosedd ac anhrefn a swyddogaeth y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â strategaethau) yn dod i rym ar 1 Ebrill 2003 i'r graddau y maent yn ymwneud ag ardaloedd llywodraeth leol yng Nghymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

*D.Elis-Thomas*
5 Mawrth 2003 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 2002 p.30.
(**2**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod â darpariaethau adrannau 97 a 98 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 ("Deddf 2002") i rym ar 1 Ebrill 2003, i'r graddau y mae'r adrannau hynny'n ymwneud â Chymru.

Mae adran 97 o Ddeddf 2002 yn gwneud amrywiol newidiadau i bartneriaethau gostwng trosedd ac anhrefn, trwy ddiwygio adrannau 5, 6, 17(2), 114 a 115(2) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 ("Deddf 1998").

Mae adran 98 o Ddeddf 2002 yn mewnosod adran 6A newydd, yn Neddf 1998. I'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru, mae'r adran 6A newydd hon yn nodi swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â strategaethau ar gyfer gostwng nifer yr achosion o drosedd.